# YSGOL Y FAENOL

## Polisi Gwisg Ysgol
## School Uniform Policy

**Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted: 02.10.25**
**Dyddiad Adolygu/Review Date: 01.02.26**

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:** ________________________________________

**Dyddiad:** ______________________

## 1. Cyflwyniad

Polisi'r ysgol yw fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pan yn mynychu'r ysgol neu pan yn mynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Ysgrifennwyd y polisi yma wedi ystyried Canllaw Statudol Llywodraeth Cymru ar Bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
- ymarferol, taclus a thwt;
- gwneud i bod plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- cael i'w ystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol ac yn werth da am arian;

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at cydraddoldeb a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth.

Os ydych yn ansicr, yna dylech gysylltu a Swyddfa'r ysgol cyn prynu gwisg.

## 2. Y Wisg Ysgol

### Meithrin

Rydym yn annog rhieni neu ofalwyr i brynu gwisg ysgol hyd oed pan fydd plentyn yn yr oed meithrin. Mae'r wisg fel a ganlyn;

- trowsus / sgert **********
- esgidiau addas du
- crys polo *********
- crys chwys **********

### Blwyddyn Derbyn, Blwyddyn 1 & 2

Pob plentyn:

- trowsus / sgert ********
- crys polo ********
- siwmper neu gardigan ysgol *********
- esgidiau du.

### Blwyddyn 3,4,5 & 6

Pob plentyn:

- trowsus / sgert ********
- crys polo ********
- siwmper neu gardigan ysgol *********
- esgidiau du.

Yn ystod tymor yr haf gall disgyblion wisgo ffrog haf neu drowsus byr ***** a sandalau pe dymunir.

### Addysg Gorfforol

Siorts du crys T / polo ***** ysgol, plimsolls du.

**3. Enwau ar ddillad / dillad coll**

Rydym yn annog y rhieni, gofalwyr a phlant i sicrhau fod pob dilledyn wedi ei labelu yn glir gyda enw'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys esgidiau a plimsolls addysg gorfforol. Bydd pob dilledyn sydd ddim yn cael ei hawlio ar ddiwedd pob hanner tymor yn mynd i fanc dillad cyfagos neu yn cael ei ail-gylchu o fewn yr ysgol.

**4. Esgidiau**

Rydym yn annog y plant i wisgo esgidiau du i'r ysgol. Credwn fod hyn yn gwneud i'r disgyblion edrych yn daclus ar gyfer mynychu'r ysgol. Dylai fod yr esgidiau yn ddiogel ac yn addas ichwarae yn ddiogel tu allan ar fuarth neu gae yr ysgol(tymor yr haf). Ni ddylai'r un plentyn wisgo esgidiau gyda sodlau uchel(high heels)

**5. Gwalltiau ac addurniadau**

Nid yw lliwio gwallt yn rhan o'r wisg ysgol. Nid sioe ffasiynau yw'r ysgol chwaith. Gofynnir i rieni a gofalwyr wneud pob ymdrech i barchu'r rheol hon. Dim ond 'studs' sydd yn cael eu caniatau o ran clustlysau. Ni ddylid gwisgo unrhyw glustlysau ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Trafodir unrhyw steil gwallt anarferol gyda rhieni pan fo'n berthnasol i wneud hyn.

Fel ysgol, mae gennym yr hawl i benderfynu beth sydd yn dderbyniol, ac sydd ddim yn dderbyniol i'w wisgo i ddod i'r ysgol.

Os oes rhesymau crefyddol yn gofyn i blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.